RHIFYN
ISSUE
16
25.11.19

Llais Llantrisant

CINIO NADOLIG
CHRISTMAS LUNCH

Mae amser yna'r flwyddyn ar ein pennau unwaith eto pan fydd Mrs Krieger a Mrs Goodridge, Cogyddes yr ysgol, yn trio cael rhifau at ei gilydd er mwyn archebu digon o fwyd ar gyfer y cinio ysgol ar 13.12.19. Er i ni ofyn yn garedig bob blwyddyn, anodd iawn yw'r tasg o ddod o hyd i niferoedd er mwyn cynllunio. Felly, unwaith eto, gofynnir yn garedig i bawb anfon nodyn i'r ysgol erbyn dydd Llun, Rhagfyr 2ail er mwyn archebu cinio ysgol. Peidiwch ag anfon arian i'r ysgol os gwelwch yn dda. Cewch dalu am y cinio arlein, yn ddelfrydol, neu anfon arian i'r ysgol wythnos y cinio ysgol. Niferoedd sy'n bwysig i'r Gegin ar hyn o bryd. Ni fyddwn yn gallu derbyn archebion wedi'r dyddiad uchod.

It's that time of year again which sees Mrs Krieger and Mrs Goodridge, the school Cook, trying to get correct numbers together to order food for the Christmas lunch on 13.12.19. Although we kindly ask the same thing each year, the task of getting numbers ready is very difficult! So, once again, we kindly ask that you send a note into school to order a Christmas lunch by Monday December 2nd please. Please don't send money in with this order as you will pay online, preferably, or send money in the week of the Christmas lunch. The numbers are the most important thing for the Kitchen at this time. We shall be unable to accept orders for Christmas lunch after the above date.





DYDDIADAU ALLWEDDOL
KEY DATES

26.11.19 - Gweithdy Troseddau Casineb Blwyddyn 6
Year 6 Hate Crimes Awareness Workshop
26.11.19 - Blwyddyn 1 a 2 yn ymweld â Techniquest
Year 1 and 2 visit Techniquest
27.11.19 - Cyngerdd Nadolig y Meithrin
Nursery Christmas Concert
28.11.19 - Cystadleuaeth Rygbi TAG (Tîm o Fl. 5)
TAG Rugby tournament (team from Yr.5)
29.11.19 - Cyngerdd Nadolig y Derbyn
Reception Christmas Concert

GALA NOFIO'R URDD
THE URDD SWIMMING GALA

Llongyfarchiadau mawr i'r plant fu'n cystadlu yn y gala ym mhwll Ynysawdre ar 07.11.19. Da iawn i bawb fu'n cystadlu ar y dydd a llongyfarchiadau i Joshua A. a ddaeth yn 2ail yn y ras 'Cefn' i Fechgyn Blwyddyn 3 a 4.
Many congratulations to all the children who took part in the Urdd Swimming Gala in Ynysawdre Swimming Pool on 07.11.19. Well done to all those who competed on the day and congratulations to Joshua A. who came 2nd in the Backstroke for Boys, Year 3 and 4,



BRECHIAD Y FFLIW
FLU VACCINATION

Nid ydym wedi derbyn dyddiad newydd ar gyfer ymweliad y nyrsys eto. Unwaith y byddwn ni'n derbyn gwybodaeth fe gewch chi wybod y syth. Llythyr GIG Cymru.
We are yet to receive confirmation of a new date for the nurses' visit but we shall let you know as soon as we receive any further information. NHS Wales Letter.



DIWRNOD PLANT MEWN ANGEN
CHILDREN IN NEED DAY

Diolch yn fawr iawn am eich holl gyfraniadau hael tuag at yr elusen pwysig hwn. Codwyd £375.30!
Many thanks to you all for your very generous donations towards this important charity. Together, we raised £375.30!















DIWRNODAU HMS
INSET DAYS

Erbyn hyn, rydym wedi pennu pob un o'n diwrnodau HMS ar gyfer y flwyddyn academaidd hon.

By now, we have set all of our INSET days for this academic year.

~~02.09.19~~
~~18.11.19~~
06.01.20
22.01.20
20.04.20
20.07.20

GOLEUADAU NADOLIG
CHRISTMAS LIGHTS

Unwaith eto eleni, bu Côr yr Ysgol yn canu ym mhentref Pontyclun ar 23.11.19 fel rhan o ddathliadau seremoni cynnau goleuadau Nadolig Pontyclun. Yn ogystal, mae criw o blant wedi bod yn gweithio'n galed gyda Miss Jones i greu tinsel ar gyfer y goeden. Defnyddiodd y plant lwythi o fagiau plastig clir a'u clymu at eu gilydd gyda neges 'ailgylchu/ail-ddefnyddio'. Felly, os byddwch yn taro draw i'r pentref i weld y goeden, meddyliwch am yr holl oriau mae'r plant wedi'u treulio i greu'r tinsel yma! ☺

Once again this year, the School Choir went along to sing in the official switching on of the Pontyclun Christmas Lights ceremony on 23.11.19. Also, a crew of eager children have been busy with Miss Jones in creating tinsel for the Pontyclun village Christmas tree. The children used tens and tens of clear plastic bags which were then attached together to create this tinsel with a 'recycle/ re-use' message. So, if you drop by to see the Pontyclun village Christmas tree, spare a thought for the hours spent by the children making this tinsel! ☺





YMWELIAD Y LLYWODRAETHWYR
THE GOVERNORS' VISIT

Ddydd Mercher, Tachwedd 20fed, daeth aelodau Pwyllgor Cwricwlwm y Bwrdd Llywodraethu i'r ysgol i dreulio bore gyda ni. Daeth Mrs Vickers-Hulse, Mrs Morgan a Mrs Holton atom i gael blas ar fywyd a gwaith dyddiol yr ysgol. Treuliodd y Llywodraethwyr eu hamser yn teithio o gwmpas yr ysgol ac yn ymweld â phob dosbarth i weld y plant wrth eu gwaith. Cafwyd cyfle, hefyd, i sgwrsio gyda'r plant a'r staff am eu gwaith. Diolch yn fawr iawn i aelodau hŷn Pwyllgor Llais Llantrisant Senedd yr Ysgol am dywys y Llywodraethwyr o gwmpas yr ysgol a diolch i'r Llywodraethwyr am roi o'u hamser i ymweld â ni.

Wednesday, November 20th, members of the Curriculum Committee of the Governing Body visited school for the morning. Mrs Vickers-Hulse, Mrs Morgan and Mrs Holton came along to have a taste of daily school life and work. The Governors spent their time visiting each class to see the children busy at work. They also had the opportunity to chat with the children and the staff about their work. A big thank you is needed to the senior members of the 'Llantrisant Voice' committee of the School Parliament who accompanied the Governors on their visit and thank you to the Governors for giving their time to visit us.

"When questioned about school, pupils expressed that they liked school, felt happy and safe and felt that their teachers cared about them and their learning." KVH

"It was great to see how well the children work in groups and how kind and respectful they are to each other." JM

"The tasks were creative but educational and it's a testament to the teachers and TA's that tasks and activities were inspiring." HH

Y GRhA
THE PTA

Diolch yn fawr iawn i'r GRhA am gytuno i ariannu ar y cyd â Chyfrif Preifat yr Ysgol 10 bwrdd gwyn rhyngweithiol (un i bob dosbarth) a set o 15 'Chromebook' i'r ysgol gyfan. Mae'r plant yn gyffrous iawn ac yn methu aros i weld yr adnoddau arbennig newydd hyn sy'n cyrraedd yr wythnos yn dechrau Rhagfyr 9fed!

Ar nodyn arall, yn sgîl derbyn gwrthwynebiadau yn erbyn ffilmio'r cyngherddau Nadolig, ni fydd y GRhA yn bwrw ymlaen gyda'u bwriad o ffilmio'r sioeau eleni fel cyfle i rannu perfformiadau penigamp y plant gydag aelodau o'r teulu fydd ddim yn gallu mynychu, efallai. Ta beth, hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch i aelodau'r GRhA sydd wedi treulio nifer helaeth o oriau o'u hamser personol yn barod i drefnu hyn er mwyn codi arian at gronfa'r GRhA i ariannu prosiectau er mwyn holl blant yr ysgol. Gwerthfawrogwn yn fawr holl ymdrechion y Pwyllgor i adeiladu ar waith gwych y GRhA yn y gorffennol ac am ystyried rhagor o brosiectau i godi arian at adnoddau ar gyfer yr holl ddisgyblion.

Many thanks to the PTA for agreeing to jointly fund, along with the school's Private Fund, 10 interactive whiteboards (one for each class) and a set of 15 'Chromebooks' for the whole school. The pupils are very excited and can't wait to see these fantastic new resources which are being installed the week commencing December 9th!

On another note, following objections to the filming of this year's Christmas concerts, the PTA will no longer carry out their intention to film these concerts which would have been a great opportunity to share the children's fantastic performances with family members who might not be able to attend the concerts. However, I should like to take this opportunity to thank the members of the PTA who have already spent many hours of their own personal time to organise this task to raise money for the PTA's funds and, ultimately, for the children. We greatly appreciate the Committee's hard work to build upon the great work undertaken in the past and for considering new projects to raise money for resources forthe children.



